


## Eisteddfod yr Urdd – Pob hwyl!

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn 2026 yn cychwyn fory. Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu. Wela i chi lan 'na!

Dyma ddolenni sydyn er gwybodaeth:

- Amserlen yr Ysgol Gymraeg
- Sut i gyrraedd y maes
- Map o'r maes
- Sut i wylio ar y teledu

## *Urdd Eisteddfod – Best wishes!*

*The Urdd National Eisteddfod Ynys Môn 2026 will begin tomorrow. Best wishes to everyone taking part. I'll see you there!*

*Here are some useful links:*

- Ysgol Gymraeg timetable
- How to get there
- Map of the Eisteddfod
- How to watch on TV

---




## Posteri defnyddiol

Mae llawer o bosteri a gwybodaeth am ddigwyddiadau amrywiol wedi ein cyrraedd wythnos hon. Ewch i waelod y llythyr i'w gweld – maent yn amrywio o weithgareddau i'ch diddori dros hanner tymor, yn ogystal â phlanhigion am ddim i blant ysgolion Aberystwyth ... ewch i weld!

## *Useful posters*

*We have received many posters and pieces of information about various events this week. Scroll to the bottom of the newsletter to see them — they range from activities to keep you entertained over half term, to free plants for Aberystwyth school children … go and take a look!*

---

## Teganau yn yr ysgol

Er mwyn helpu i gynnal amgylchedd dysgu tawel a hapus gofynnwn yn garedig i blant beidio â dod â theganau nac eitemau personol o'r cartref i'r ysgol oni bai ein bod wedi gofyn amdanynt yn benodol. Yn ystod y mis diwethaf, rydym wedi gorfod delio â nifer o achosion o blant yn cwympo mas ac yn mynd yn ypset oherwydd teganau a phethau personol yn dod i'r ysgol. Gall teganau fynd ar goll neu gael eu difrodi'n hawdd a gall hyn gymryd dipyn o amser y staff i ddelio â nhw. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth wrth atgyfnerthu'r neges hon gyda'ch plentyn.

## *Toys at school*

*To help maintain a calm and happy learning environment, we kindly ask that children do not bring toys or personal items from home to school unless we have specifically requested them. During the past month, we have had to deal with several incidents involving children falling out and becoming upset because toys and personal belongings were brought into school. Toys can easily get lost or damaged, and dealing with this can take up a considerable amount of staff time. We appreciate your support in reinforcing this message with your child.*

---



## Ras Liwiau – diolch yn fawr

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Ras Liwiau ddoe. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus dros ben! Diolch yn fawr i'r G.Rh.A am drefnu. Dychwelwch y ffurflenni nawdd heddiw neu cyn gynted â phosib wedi hanner tymor os gwelwch yn dda.

## *Colour Run – thank you*

*Thank you very much for your support for the Colour Run yesterday. It was an extremely successful event! Many thanks to the PTA for organising it. Please return the sponsorship forms today or as soon as possible after half term.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin $10^{fed}$
- H.M.S : Mehefin $22^{ain}$ (Dydd Llun)
- Mabolgampau Meithrin : Mehefin $25^{ain}$
- Mabolgampau gweddill yr ysgol : Gorffennaf $2^{ail}$
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf $16^{eg}$
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf $17^{eg}$

### *Summer term 2026 important dates:*

- *Class photographs : June $10^{th}$*
- *I.N.S.E.T Day : June $22^{nd}$ (Monday)*
- *Meithrin Sports Day : June $25^{th}$*
- *Sports Day for rest of school : July $2^{nd}$*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July $16^{th}$*
- *Last day of term : July $17^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**22/05/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru

---

**Tocynnau am ddim - Free tickets for Musicfest Aberystwyth!**

Mae Musicfest Aberystwyth yn un o brif ŵyliau cerddoriaeth rhyngwladol Prydain. Mae'n gyfle i brofi rhai o gerddorion clasurol gorau'r byd rhwng yr 18 – 25 o Orffennaf. Mae pob tocyn i bob cyngerdd am ddim i bawb dan 25 oed. I weld rhaglen yr ŵyl ewch i www.musicfestaberystwyth.org. I archebu tocynnau am ddim i'r rhai dan 25 oed, cysylltwch â Swyddfa Docynnau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 01970 623 232.

Musicfest Aberystwyth is one of the UK's main international music festivals. It's a rare opportunity to experience some of the best classical musicians in the world from the 18 – 25 of July. All tickets to all concerts are free for everyone under 25. To see the festival programme go to www.musicfestaberystwyth.org. All free tickets for under 25's must be booked via the Box Office at Aberystwyth Arts Center on 01970 623 232.


MAY HALF-TERM ACTIVITIES 2026
GWEITHGAREDDAU HANNER TYMOR MIS MAI 2026
BMO COACHING
FOOTBALL DEVELOPMENT CAMP
GWERSYLL DATBLYGU PÊL-DROED
ABERYSTWYTH TOWN FC
28 May / Mai
MULTI-SPORTS CAMP PLASCRUG
GWERSYLL CHWARAEON AMRYWIOL
26 May / Mai
ABERYSTWYTH TOWN FC
SOCCER SCHOOL / YSGOL PÊL-DROED
29 May / Mai
ABERYSTWYTH TOWN FC
SOCCER SCHOOL / YSGOL PÊL-DROED
(GIRLS / MERCHED)
27 May / Mai
GOALKEEPER CAMP
GWERSYLL Y GÔL-GEIDWAD
ABERYSTWYTH TOWN FC
29 May / Mai
FREE spaces available for children eligible for free school meals. Mae lleoedd AM DDIM ar gael i blant sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.
4-7yrs old
9:00 - 12:00
£23pp
8-16yrs old
9:00 - 15:00
£32pp
Pre-Booking is required.
Book via our website
Mae angen archebu ymlaen llaw.
Archebwch drwy ein gwefan
www.bmocoaching.co.uk/book/
info@bmocoaching.co.uk


EVERY PRIMARY SCHOOL PUPIL IN ABERYSTWYTH GETS A
FREE PLANT
THIS MAY HALF TERM !
Let's Get Gardening!
It's National Children's Gardening week and to celebrate, Charlies wants to get the children of Aberystwyth gardening.
Bring this leaflet into store between Saturday 23rd May and Sunday 31st May 2026 to collect your free plant*
Charlies Stores,
Parc-Y-Llyn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth, Ceredigion,
Wales, SY23 3TL,
01970600230
*One plant per child. Plants may vary
Our May Bank Holiday
Opening Hours:
Saturday (23rd May): 9am-6pm
Sunday (24th May): 10am-4pm
Bank Holiday Monday (25th May): 9am-6pm
Tuesday onwards normal hours resume
charlies
Home, Garden & The Great Outdoors


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
Diwrnod Agored
Banc Dillad a Teganau
DYDD GWENER 29-5-26
11.00YB - 2.00YP
@NYTH NI, PENPARCAU
Galwch draw i weld beth sydd gennym.
Jo-Alice
07891 321 778
POB EITEM AM DDIM
DOES DIM ANGEN ARCHEBU - GALW I MEWN
Nyth Ni, Campws Llwyn yr Eos, Penparcau, Aberystwyth.
SY23 1SH
What3words///cysonaf.egni.yfwn
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
Clothes and Toys Bank
Open Day
FRIDAY 29-5-26
11.00AM - 2.00PM
@NYTH NI, PENPARCAU
Call in to see what we have.
Jo-Alice
07891 321 778
ALL ITEMS FREE
NO NEED TO BOOK - JUST DROP IN
Nyth Ni, Llwyn yr Eos Campus, Penparcau, Aberystwyth.
SY23 1SH
What3words///gain.note.betraying
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start




Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL

@YrYsgolGymraeg swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk 01970 617613

Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James